



Y Cyngorydd Heledd Fychan

Heledd.Fychan@rctcbc.gov.uk

13 Mawrth 2022

Annwyl Gyngorydd Fychan,

Parthed: Deiseb ynglŷn ag ardaloedd Graig-wen a Heol Berw, Pontypridd

Cyfeiriaf at eich deiseb ddiweddar ynglŷn â'r uchod gan ymateb i'r pwyntiau traffig perthnasol a godwyd:-

Deiseb Graig-wen

Gyrru'n rhy gyflym – Yr Heddlu sy'n gyfrifol am orfodi terfynau cyflymder ar y briffordd; felly, byddwn ni'n tynnu sylw'r Heddlu at y mater yma er mwyn iddo ystyried camau gorfodi addas.

Dylid nodi bod y Cyngor, yn unol â chynigion Llywodraeth Cymru, wrthi'n newid y rhan fwyaf o derfynau cyflymder 30 mya presennol ledled y Fwrdeistref Sirol i 20 mya yn ystod 2023.

Mesurau Arafu Traffig – Mae'r Cyngor yn derbyn nifer o geisiadau am gyflwyno mesurau traffig a diogelwch ledled Rhondda Cynon Taf, ac mae nifer y ceisiadau'n llawer uwch na'r gyllideb sydd ar gael.

Mae rhaglen Rheoli Traffig y Cyngor yn cael ei hariannu trwy grant gan Lywodraeth Cymru a thrwy adnoddau'r Cyngor ei hun. Rhaid defnyddio arian Grant Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau ffigurau damweiniau presennol.

Mae adolygiad o hanes gwrthdrawiadau ar gyfer y pum mlynedd diwethaf (y cyfnod lle mae'r data diweddaraf ar gael) yn nodi na fyddai'r lleoliad yma'n gymwys ar gyfer arian o dan feini prawf y grant.

Mae adnoddau'r Cyngor ei hun yn cael eu clustnodi ar gyfer cynlluniau diogelwch a rheoli traffig ar raddfa fechan. Fydden nhw ddim yn addas ar gyfer cynllun ar raddfa fawr fel y byddai ei angen ar gyfer cyflwyno mesurau arafu traffig yn y lleoliad yma.

Serch hynny, mae'r cais am fesurau arafu traffig wedi cael ei gofnodi fel mater i'w drafod yn y dyfodol pe byddai'r amgylchiadau uchod yn newid ac yn amodol ar argaeledd y cyllid angenrheidiol.

Croesfannau i Gerddwyr – Mae darpariaeth croesfannau i gerddwyr yn amodol ar weithdrefnau statudol, gan gynnwys ymgynghoriadau gyda'r Heddlu. Dim ond ar ôl cyflwyno Hysbysiad Cyhoeddus y mae modd eu sefydlu neu'u newid.

Wrth osod, tynnu neu newid croesfan, mae'r Cyngor yn ystyriol o gyngor a chanllawiau wedi'u cyhoeddi gan yr Adran Drafnidiaeth. Mae'n nodi'r canlynol: "It should not be assumed that the provision of a crossing alone will necessarily lead to a reduction in road accidents". Yn gyffredinol, dylai darpariaeth croesfan a'r math o groesfan sydd i'w defnyddio fod wedi'u targedu at anghenion y bobl hynny sy'n wynebu anhawster a pherygl.

Mae angen i'r penderfyniad ynghylch darparu croesfan neu beidio, a'r math o groesfan sydd i'w defnyddio, fod yn gytbwys yn seiliedig ar nifer y cerbydau a cherddwyr a'r math o ddefnyddwyr.

Mae'n hanfodol ystyried holl amodau presennol y ffordd a llunio cynllun addas wrth ymgynghori â'r Aelodau Lleol a'r gymuned. Os gwneir cais am groesfan newydd, neu am newidiadau i gyfleusterau presennol, bydd pob cais yn cael ei asesu yn unol â chyngor yr Adran Drafnidiaeth, a'i ddarparu yn ôl yr angen, yn rhan o raglen o waith yn y dyfodol.

Rydw i felly wedi nodi eich cais am groesfan i gerddwyr ar fryn Graig-wen ac wedi cofnodi'r manylion i'w hystyried yn y dyfodol.

Parcio – Mae darparu neu ddirymu cyfyngiadau aros yn gofyn am wneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Mae'r broses yn gofyn amser ac mae'n weddol ddud gan y bydd raid cynnal ymgynghoriadau a chyflwyno Hysbysiad Cyhoeddus sy'n cynnwys dwy hysbyseb i'r wasg. Rydyn ni'n derbyn nifer o geisiadau am fesurau fel hyn. Serch hynny, gan mai dim ond hyn a hyn o arian sydd gyda ni, dim ond nifer fach o'r ceisiadau yma a gaiff eu gwireddu bob blwyddyn. Mae rhaglen eleni wedi cael ei chymeradwyo'n barod a dydy hi ddim yn bosibl cynnwys cynlluniau ychwanegol ar hyn o bryd.

Does gan y Cyngor ddim pwerau i ddelio â cherbydau sydd wedi'u parcio mewn ffordd sy'n peri rhwystr neu sy'n beryglus oni bai eu bod nhw wedi'u parcio lle mae cyfyngiadau aros mewn grym. Byddwn ni'n rhoi gwybod am eich pryderon i'r Heddlu er mwyn iddo ystyried camau gweithredu addas. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd trigolion eisiau rhoi gwybod am achosion o barcio mewn ffordd sy'n peri rhwystr i'r Heddlu er mwyn iddo ddelio â'r achosion yma ar unwaith.

Deiseb Heol Berw

Mesurau Arafu Traffig – Mae'r Cyngor yn derbyn nifer o geisiadau am gyflwyno mesurau traffig a diogelwch ledled Rhondda Cynon Taf, ac mae nifer y ceisiadau'n llawer uwch na'r gyllideb sydd ar gael.

Mae rhaglen Rheoli Traffig y Cyngor yn cael ei hariannu trwy grant gan Lywodraeth Cymru a thrwy adnoddau'r Cyngor ei hun. Rhaid defnyddio arian Grant Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau ffigurau damweiniau presennol.

Mae adolygiad o hanes gwrthdrawiadau ar gyfer y pum mlynedd diwethaf (y cyfnod lle mae'r data diweddaraf ar gael) yn nodi na fyddai'r lleoliad yma'n gymwys ar gyfer arian o dan feini prawf y grant.

Mae adnoddau'r Cyngor ei hun yn cael eu clustnodi ar gyfer cynlluniau diogelwch a rheoli traffig ar raddfa fechan. Fydden nhw ddim yn addas ar gyfer cynllun ar raddfa fawr fel y byddai ei angen ar gyfer cyflwyno mesurau arafu traffig yn y lleoliad yma.

Serch hynny, mae'r cais am fesurau arafu traffig wedi cael ei gofnodi fel mater i'w drafod yn y dyfodol pe byddai'r amgylchiadau uchod yn newid ac yn amodol ar argaeledd y cyllid angenrheidiol.

Croesfannau i Gerddwyr – Mae darpariaeth croesfannau i gerddwyr yn amodol ar weithdrefnau statudol, gan gynnwys ymgynghoriadau gyda'r Heddlu. Dim ond ar ôl cyflwyno Hysbysiad Cyhoeddus y mae modd eu sefydlu neu'u newid.

Wrth osod, tynnu neu newid croesfan, mae'r Cyngor yn ystyriol o gyngor a chanllawiau wedi'u cyhoeddi gan yr Adran Drafnidiaeth. Mae'n nodi'r canlynol: "It should not be assumed that the provision of a crossing alone will necessarily lead to a reduction in road accidents". Yn gyffredinol, dylai darpariaeth croesfan a'r math o groesfan sydd i'w defnyddio fod wedi'u targedu at anghenion y bobl hynny sy'n wynebu anhawster a pherygl.

Mae angen i'r penderfyniad ynghylch darparu croesfan neu beidio, a'r math o groesfan sydd i'w defnyddio, fod yn gytbwys yn seiliedig ar nifer y cerbydau a cherddwyr a'r math o ddefnyddwyr.

Mae'n hanfodol ystyried holl amodau presennol y ffordd a llunio cynllun addas wrth ymgynghori â'r Aelodau lleol a'r gymuned. Os gwneir cais am groesfan newydd, neu am newidiadau i gyfleusterau presennol, bydd pob cais yn cael ei asesu yn unol â chyngor yr Adran Drafnidiaeth, a'i ddarparu yn ôl yr angen, yn rhan o raglen o waith yn y dyfodol.

Rydw i felly wedi nodi'ch cais am groesfan i gerddwyr ar Heol Berw ac wedi cofnodi'r manylion i'w hystyried yn y dyfodol.

Hyderaf fod yr uchod yn ymateb i'r ymholiadau a godwyd.

Yn gywir

A. Morgan

Y Cyngorydd Andrew Morgan
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Councillor Andrew Morgan
Leader of Rhondda Cynon Taf County Borough Council

Swyddfa'r Cabinet Cabinet Office
Y Pafiliynau, The Pavillions, Cwm Clydach,
Tonypany, CF40 2XX

Ffôn/Tel: 01443 424065
E-bost / Email: Cabinet@rctcbc.gov.uk
Rhyngwladol/International: +44 1443
424065/6

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn y Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e. Cymraeg neu ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

